PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Iechyd a Diogelwch










## Adroddiad Blynyddol

## 2015/16

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

**Mynegai** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Lefel Prifysgol: Dangosyddion Rheoli Risg | 2 |
| 2. | Perfformiad Colegau / Adrannau | 2 |
| 3. | Archwiliad ac Adolygiadau | 3 |
| 4. | Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygiaeth(au) Statudol | 5 |
| 5. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 5 |
| 6. | Damweiniau a Digwyddiadau | 6 |
| 7. | Absenoldeb Salwch Staff | 9 |
| 8. | Goruchwyliaeth a Gwiriadau Iechyd | 11 |
| 9. | Gweithredu Larwm Tân | 12 |
| 10. | Hawliadau Sifil (cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch) | 13 |
| 11. | Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol | 13 |
| 12. | Ystadegau Gwefan | 13 |
| 13. | Digwyddiadau Hybu Iechyd | 13 |
| 14. | Cefnogi'r Gymuned Ehangach | 14 |

Mae Adroddiad Blynyddol 2015-16 yn cynnwys nifer o elfennau ychwanegol. Mae llawer o'r rhain yn Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), neu byddant yn cael eu defnyddio felly. Y bwriad yw datblygu mesurau perfformio dros y blynyddoedd i ddod, gan ymgorffori mesuriadau mwy cadarn ac ansoddol.

## 1. LEFEL PRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Gwelir gwelliant cyson drwodd a thro mewn perfformiad dangosyddion risg allweddol.**

Mae'r peryglon/risgiau canlynol ar draws y brifysgol wedi cael eu hasesu'n ansoddol ac ystyrir eu bod yn arwydd o berfformiad. Mae mesuriadau mwy empirig yn cael eu datblygu ar gyfer nifer o feysydd, yn cynnwys archwilio perfformiad. Caiff y rhain eu hymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol.

| PERYGL / RISG / THEMA | Polisi / Dog. | Maint Risg | Nodiadau: Medi 2015 |
|---|---|---|---|
| **COSHH – Cyfryngau Biolegol (HG2,3 & GM2)** | G | L | Rheolaeth dda i'w gweld. Gweithgaredd yn y maes hwn yn cynyddu. |
| **COSHH – Cemegau mewn labordai** | M | M | Angen adolygiad o ymchwil cemegol i bennu safonau. Polisi i'w ddiweddaru. |
| **Diogelwch Trydanol - Gosod** | G | L | T&I 5 mlynyddol wedi'i sefydlu. Rhai materion lleol risg is yn parhau. |
| **Diogelwch Trydanol – Offer Cludadwy** | G | M/L | Lefelau cydymffurfio wedi gwella'n sylweddol, angen gwelliannau pellach. |
| **Syrthio o Uchder (risgiau sefydlog)** | M | L/M | Mae buddsoddiad sylweddol wedi lleihau risgiau sylfaenol. Mae hyn yn parhau. |
| **Gwaith maes (Myfyrwyr a Staff)** | G | M | Polisi a Gweithdrefnau Diwygiedig. Angen ailasesu yn 2017/18 i ystyried perfformiad. |
| **Datblygu Diogelwch rhag Tân** | G | L/M | Trefniadau da wedi'u sefydlu. Angen peth gwaith pellach. |
| **Laserau ac Uwch Fioled (UV) – ymbelydredd nad yw'n ioneiddio** | A | M/L | Adolygiad Laser Dosbarth 4 wedi'i wneud gan SEE. |
| **Cyhyrysgerbydol (DSE)** | G | M/L | Hunan-asesiad DSE ar-lein yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. |
| **Gweithio Dramor** (yn cynnwys lleoliadau myfyrwyr) | G | L/M | Mae angen adolygiad i weld a yw rhai staff yn teithio heb yswiriant prifysgol. |
| **Rheoli Cerddwyr a Thraffig** | A | M | Mae nifer fechan o fannau lle ceir problemau neilltuol yn parhau. |
| **Ymbelydredd - Radon** | G | L | Rheolaethau ac Asesiadau Risg ar gael.. |
| **Ymbelydredd – Ffynonellau Agored ac wedi'u Selio** | G | L | System dda ar gael. Archwiliwyd yn allanol. |
| **Ymbelydredd – Pelydr-X (risg i bobl)** | G | L | Gwelir systemau da. Archwilir yn allanol. |
| **Llithro, Baglu a Syrthio (allanol)** | P | M | Dim trefn archwilio ffurfiol ar gael. Risg uchel o ymgyfreithio sifil. |
| **Gweithgareddau dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr** | G | L | Lefel dda o reolaeth i'w gweld. Archwiliad i fod i gael ei wneud. |
| **Diogelwch Cerbydau** | G | M | Nodwyd problemau o bwys. |
| **Diogelwch Dŵr (rheoli Legionella)** | A | L/M | Mae angen Polisi a Gweithdrefn ddiwygiedig i Golegau/Adrannau. Hefyd angen diweddaru polisi'r brifysgol. |

**ALLWEDD**

| | |
|---|---|
| **G:** Gweithdrefnau da | **L:** Risg isel |
| **A:** Gweithdrefnau o ansawdd ganolig | **M:** Risg ganolig |
| **P:** Cyfyngedig / dim gweithdrefnau addas neu glir | **H:** Risg lefel uwch |

***Nodyn:*** *Mae'r uchod yn ddangosyddion ansoddol a gymerwyd o'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n werthusiad ansoddol parhaus o 50 maes Perygl a Risg Uchaf y brifysgol.*

## 2. PERFFORMIAD COLEGAU / ADRANNAU

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Mae angen i bob Coleg ac Adran (5 Coleg / 21 Adran Wasanaeth) gyflwyno Ystadegau Iechyd a Diogelwch Blynyddol. Mae'r canlynol yn crynhoi'r darganfyddiadau allweddol:

| Dogfennau Iechyd a Diogelwch | Statws/ Gwerth |
|---|---|
| a) **Ystadegau Blynyddol:** Colegau | **100%** |
| b) **Ystadegau Blynyddol:** Adrannau Gwasanaeth | **95%** |
| c) **Asesiad Risg**: Canran **Colegau** sydd wedi llenwi ac adolygu eu Hasesiad Risg Cyffredinol<br>***Sylwer**: Mae gan un coleg Asesiadau Risg ar wahân i bob Ysgol sydd ynddo ac mae yn y broses o'u cyfuno.* | **80%** |
| d) **Asesiad Risg:** Canran **Adrannau Gwasanaeth** sydd wedi llenwi ac adolygu eu Hasesiad Risg Cyffredinol<br>***Sylwer**: Adrannau gweinyddol risg isel yw'r adrannau hynny nad ydynt wedi llenwi dogfennau ffurfiol.* | **86%** |

Drwodd a thro, mae gweithredu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch mewn Colegau ac Adrannau wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae Colegau ac Adrannau'n rhoi sylwadau drwy lenwi'r holiadur blynyddol ac mae angen iddynt adolygu eu Hasesiad Risg Cyffredinol eu hunain. Rhagwelir y caiff DPA ychwanegol eu cynhyrchu o'r Ystadegau Blynyddol dros y ddwy flynedd nesaf.


## 3. ARCHWILIADAU AC ADOLYGIADAU

Cyflawnwyd yr archwiliadau ac adolygiadau iechyd a diogelwch a ganlyn:

- **ARCHWILIAD MEWNOL: Fframwaith prifysgol ar gydymffurfio â deddfwriaeth**

Cynhaliwyd arolwg ar lefel uchel o fframwaith y Brifysgol i gydymffurfio â deddfwriaeth fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol ysbeidiol ar gyfer 2015/16. Gwnaed yr archwiliad gan RSM UK.

<u>Crynodeb yr Archwiliad</u>




*"The [University] Council can take reasonable assurance that the controls in place to manage the Framework for Compliance with Legislation in respect of the Health and Safety at Work Act 1974 are suitably designed and consistently applied. However, we have identified issues that need to be addressed in order to ensure that the control framework is effective in managing the identified areas."*

Roedd argymhellion allweddol yn cynnwys:

i. Yr angen i gadw cofnodion lleol o hyfforddiant iechyd a diogelwch.

ii. Yr angen i wella'r cyswllt rhwng teithiau tramor ac Yswiriant / Asesiadau Risg Teithio.

Mae camau gweithredu ar ôl yr archwiliad yn cael eu monitro gan Bwyllgor Archwilio a Risg y Brifysgol.

- **ADOLYGIAD DIOGELWCH AR FYSIAU MINI**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Gwelir safonau da ar draws y brifysgol, ond mae angen rhai gwelliannau gyda threfn weithredu**

Fe wnaeth yr adolygiad asesu cydymffurfio â gofynion Polisi'r Brifysgol a Ddiogelwch Bysiau Mini (ac eithrio bysiau mini Undeb y Myfyrwyr) a gwelwyd bod ymwybyddiaeth dda ar draws y brifysgol o reolaethau'n ymwneud â gyrwyr bysiau mini.

Roedd pryderon a nodwyd yn ymwneud yn bennaf â defnyddio ac arddangos Trwyddedau Bws Bach, sy'n rhoi eithriadau o rai agweddau ar y Ddeddf Cludiant.

- **ADOLYGIAD DIOGELWCH GYRWYR A CHERBYDAU**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Nodwyd bod diffyg archwiliadau ar gerbydau yn fater o bwys. Nid yw gwirio trwyddedau gyrwyr yn cael ei wneud mewn ffordd gynhwysfawr.**

Darganfu'r Adolygiad fod gan y mwyafrif o Ysgolion ac Adrannau ddealltwriaeth dda o ofynion cynnal a chadw cerbydau a gwirio trwyddedau gyrwyr. Fodd bynnag, roedd nifer fechan o feysydd yn sylweddol brin o bolisi a disgwyliadau'r brifysgol. Roedd y diffygion yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

i. Peidio ag asesu 'trwyddedau gyrru' (neu heb system gadarn i wneud hynny) a ddim yn awdurdodi gyrwyr yn glir i yrru cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol neu a brydlesir ganddi.

ii. Ddim yn gwneud archwiliadau diogelwch rheolaidd ac wedi'u cofnodi ar gerbydau a heb systemau cadarn i sicrhau bod cerbydau'n parhau mewn cyflwr addas i fod ar y ffordd.

*<u>Gweithredu:</u> Roedd angen gwelliant yn syth o fewn un adran wasanaeth o bwys. Yn dilyn yr Adolygiad, cafodd dogfennau a gwybodaeth y brifysgol eu symleiddio, gyda gofynion yn adlewyrchu gofynion statudol yn well. Gwneir archwiliadau yn y fan a'r lle yn 2016/17 i gadarnhau gwelliannau mewn meysydd risg allweddol.*

## • ADOLYGIAD PERYGLON BIOLEGOL

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Safonau da i'w gweld ar draws cyfleusterau Lefel 2 Cyfyngu Bio-beryglon.**

Gwelwyd bod rheolaethau da ar ddefnyddio cyfryngau biolegol sydd yn Grŵp Peryglon 2/3 (bacteria pathogenaidd, firysau, parasitiaid a ffyngau).

Mae cynnydd yn amrywiaeth y cyfryngau biolegol yn y brifysgol ac mae angen cyfres o drwyddedau arbennig neu ganiatâd gan yr HSE. Yn aml mae'r rhain yn destun archwiliad allanol gan yr HSE.

***<u>Nodyn:</u>*** *Nid yw'r brifysgol yn gwneud unrhyw waith gyda chyfryngau biolegol sydd wedi eu rhestru yn y Specified Animal Pathogens Order (SAPO).*


## • ADOLYGIAD AR DEITHIO DRAMOR

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Mae prosesau a rheolaethau yn gwella. Mae angen gwneud gwaith pellach yn cysylltu teithio dramor ag yswiriant.**

Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer teithwyr sy'n mynd dramor, darpariaeth yswiriant, gofynion iechyd cyn teithio a rheolaethau risg cysylltiedig â hynny.

Yn ystod cyfnod yr adolygiad (Rhagfyr 2014 – Tachwedd 2015) cafwyd 1500 o 'achlysuron' pryd y nododd staff a myfyrwyr eu bod wedi teithio dramor ar fusnes yn ymwneud â'r brifysgol. Roedd 766 o'r achlysuron hyn i wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.




Y Coleg a nododd y nifer mwyaf o deithiau tramor oedd Gwyddorau Naturiol. Datblygu Rhyngwladol oedd yr Adran lle cafwyd mwyaf o deithio.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Ffurflen Yswiriant Teithio Dramor a'r Polisi Teithio Dramor yn sail dda ar gyfer asesu risg a rheoli teithio dramor ar fusnes y brifysgol.


Roedd camau gweithredu a argymhellwyd yn ymwneud â'r canlynol:

a) Angen gwneud gwelliannau i gysylltu prynu teithiau tramor ag Yswiriant.

b) Cadarnhad bod rhaid i Ffurflen Yswiriant Teithio'r Brifysgol gael eu llenwi pryd bynnag y bo rhywun yn teithio fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor, hyd yn oed os trefnir y teithio gan 3ydd parti.


c) Mae angen gwneud mwy i hyrwyddo yswiriant teithio ac asesu risg.

- **MONITRO CONTRACTWYR AR SAFLEOEDD**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

**Gwelwyd gostyngiad amlwg yn nifer Archwiliadau Iechyd a Diogelwch ar safleoedd adeiladu yn 2015/16. Roedd canran uwch o Archwiliadau hefyd yn nodi problemau ar safleoedd.**

Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 146 o “archwiliadau safle” lle roedd contractwyr yn gweithio. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 23% ar archwiliadau o’i gymharu â 2014 (223).




Mae canran achosion difrifol o dorri rheolau iechyd a diogelwch wedi cynyddu 1.48% (o’i gymharu â 2014), gydag achosion ‘canolig’ hefyd yn cynyddu 5.38%.

## 4. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGIAETH(AU) STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y brifysgol yn 2015/16.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ni chynhaliodd yr HSE unrhyw ymchwiliadau i’r brifysgol ac ni chafwyd unrhyw ymweliadau ffurfiol.

Y Swyddfa Gartref

Mae Arolygiaeth y Swyddfa Gartref wedi ymweld nifer o weithiau i asesu holl gyfleusterau trwyddedig yn ymwneud ag anifeiliaid er mwyn cadarnhau lles anifeiliaid a ddefnyddir ar gyfer ymchwil arsylwadol. Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu o bwys.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Ymwelodd Arolygwr CNC yn Rhagfyr 2015 i gadarnhau bod y brifysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â defnyddio, cadw, gwaredu a diogelwch deunyddiau ymbelydrol. Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu o bwys.

## 5. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

- **CYNEFINO I STAFF**

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Ar hyn o bryd gwahoddir y rhan fwyaf o aelodau staff newydd i Ddiwrnod Cynefino canolog i staff, a drefnir gan Adnoddau Dynol. Yno maent yn cael gwybodaeth sefydliadol am iechyd a diogelwch.

| DANGOSYDD PERFFORMIAD | STATWS/ GWERTH | NODIADAU |
|---|---|---|
| Canran staff newydd (a wahoddwyd) a aeth i gyfarfod cynefino canolog y brifysgol ar IaD | 63% | Nid yw’r ffigwr hwn yn cynnwys rhai grwpiau o staff maniwal a staff ar gontractau tymor byr. |

***Nodyn**: Nodir bod cynhyrchu a chadw Cofnodion Hyfforddi ar lefel leol (Colegau ac Adrannau) hefyd yn wael, gyda dim ond un Coleg yn datgan ei fod yn cofnodi holl sesiynau cynefino IaD. Mae oddeutu 74% o Adrannau Gwasanaeth yn nodi eu bod yn cynhyrchu a chadw cofnodion cynefino lleol.*

- **CYRSIAU HYFFORDDI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL**

Yn ystod y flwyddyn cafodd 56 o gyrsiau “wyneb yn wyneb” eu darparu neu eu hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

| Blwyddyn | Nifer Cyrsiau/ Sesiynau | Cyfranogwyr Staff/Myfyrwyr |
|---|---|---|
| 2015/16[1] | 56 | 309[1] |
| 2014 | 100 | 579 |
| 2013 | 85 | 583 |
| 2012 | 106 | 719 |

***Nodyn**: Bydd cyflwyno hyfforddiant ar-lein yn cael effaith ar ddata hyfforddiant "wyneb yn wyneb" a bydd angen rhoi sylw i hynny yn yr Adroddiad yn y dyfodol.*

Roedd hyfforddiant a ddarparwyd i staff yn cynnwys:

- Cymorth Cyntaf
- Diffibrileiddio mewn Argyfwng, Epipen a CPR.
- Aseswyr Sgriniau Arddangos.
- Asesu Risg
- Marsialiaid Tân
- Sesiynau Cynefino Cyffredinol Iechyd a Diogelwch

Am y tro cyntaf ers llawer o flynyddoedd, mae'r brifysgol yn awr yn cynnig cwrs 4 diwrnod 'Rheoli'n Ddiogel'. Caiff y cwrs ardystiedig hwn ei gynnal gan staff mewnol neu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth. Yn ogystal, cyflwynwyd hyfforddiant ar-lein eleni a gobeithir y gellir cynnig cyrsiau pellach drwy'r cyfrwng hwn yn y dyfodol.

## • HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON

***Nodyn**: Defnyddir Hyfforddiant ar Ddefnyddio Cyfrifiadur (DSE) fel DPA Sefydliadol dros y 3-5 mlynedd nesaf. 2015/16 yw'r flwyddyn gyntaf o adrodd ar hyn.*

| DANGOSYDD PERFFORMIAD | STATWS/ GWERTH | NODIADAU |
|---|---|---|
| Canran defnyddwyr cyfrifiadur (DSE) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r hunan-asesiad ar-lein. | 41.3% | *Cyflwynwyd hyfforddiant ar-lein yn ystod y flwyddyn.*<br>Nodir bod cyfran o'r rhai nad ydynt wedi gwneud yr hyfforddiant ar-lein wedi derbyn yr hyfforddiant traddodiadol o'r blaen. Gwaetha'r modd, nid yw'r cofnodion cyfrifiadurol canolog yn caniatáu i'r rhain gael eu nodi a pherfformiad ei fesur. |

Yn ystod 2015/16 fe wnaeth cyfanswm o **732** staff gwblhau'r Hyfforddiant DSE i Ddefnyddwyr (41.31% o'r amcangyfrif o Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron).

**Targed**: 80% o Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron erbyn 2018/19 wedi cwblhau hyfforddiant o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf.

## 6. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yw'r man cadw canolog i holl Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau yn y brifysgol. Wrth ei derbyn caiff pob ffurflen ei hasesu i benderfynu a oes angen ymchwiliad ac/neu weithredu pellach. Caiff y data ei adolygu'n rheolaidd i weld tueddiadau'n ymwneud ag achosion damweiniau ac/neu Ysgol/Adran i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol.


## • DAMWEINIAU A ACHOSODD ANAFIADAU

Nifer y damweiniau'n ymwneud â staff a myfyrwyr a achosodd anafiadau (o ganlyniad i'w gwaith neu astudiaethau prifysgol) yn 2015/16 oedd 78[2] (*67 yn 2015*). O'r cyfanswm hwn, roedd 52 *(49)* o ddamweiniau'n ymwneud â staff a 26 *(18)* â myfyrwyr.

[1] Yn 2015/16 trosglwyddwyd hyfforddiant DSE/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac ni chaiff ei gynnig mwyach fel cwrs

[2] Nid yw'n cynnwys is-gwmniau

Cyfanswm Damweiniau gydag Anafiadau
(2008 – 2015/16)





Yn ychwanegol at y damweiniau gydag anafiadau i staff/myfyrwyr, derbyniwyd **18** adroddiad arall am ddamweiniau gydag anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr[3]. Mân anafiadau oedd y rhain i gyd.

***Nodyn****: Mae nifer y damweiniau gydag anafiadau i gontractwyr a'r cyhoedd yn rhy isel i bennu tuedd iddynt.*

- **CYFRADD DAMWEINIAU GYDAG ANAFIADAU (yn ôl pob 1000 sy'n wynebu risg)**

Y gyfradd damweiniau gydag anafiadau i staff yn 2015/16 oedd 22.4 o ddamweiniau i bob 1,000 o staff[4], ychydig yn uwch na'r 21.3 damwain i bob mil a nodwyd yn 2015.

Cyfartaledd Damweiniau gydag Anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor i bob 1,000 o **Staff** (2008 – 2015/16)





| 08 | 09 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27.5 | 32.2 | 30 | 27 | 27.4 | 16.4 | 15.2 | 21.3 | 22.4 |

[3] Ddim yn cynnwys safleoedd CDM
[4] Seiliedig ar 2314 aelod staff yn ystod y flwyddyn

Yn 2015/16, cafwyd **26** o ddamweiniau gydag anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau prifysgol. Roedd hyn yn gymhareb o **2.4** (1.7) i bob 1,000 o fyfyrwyr[5].

Cyfartaledd Damweiniau gydag Anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor i bob 1000[6] o **Fyfyrwyr**
(2008 – 2015/16)




| 08 | 09 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.6 | 1.5 | 2.6 | 1.9 | 1 | 2 | 1 | 1.7 | 2.4 |

- **ANAFIADAU O BWYS**

O'r 78 o anafiadau a gafwyd mewn damweiniau yn 2015/16, roedd **4** yn cael eu hystyried yn "anafiadau o bwys", sef:

i. Torrodd aelod staff bont ei ysgwydd mewn damwain ffordd. Torrodd un arall ben-elin ar ôl syrthio/llithro ar risiau.

ii. Torrodd myfyriwr ei ffêr ar ôl syrthio ym Mharc y Coleg a syrthiodd myfyriwr arall oddi ar gadair, a thorri ei arddwrn, wrth geisio rhoi trefn ar fleinds ffenestr.

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn ystod 2015 cafwyd **5** Damwain a Digwyddiad Adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Roedd **4** yn ymwneud â staff: 3 oherwydd bod staff wedi bod o waith 'arferol' am dros 7 diwrnod oherwydd anafiadau, ac 1 yn achos o dorri asgwrn oherwydd codwm. Roedd yr **unig** ddigwyddiad yn ymwneud â myfyriwr yn achos o

[5] Seiliedig ar 10,639 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn
[6] Ddim yn cynnwys damweiniau i gontractwyr ar safleoedd adeiladu wedi eu hamgau

fyfyriwr yn gorfod cael pwythau ar ôl agor ei fawd gyda sgrafell.

Nid oedd unrhyw adroddiadau RIDDOR am afiechyd neu gyflwr galwedigaethol.

Gwelodd y Sector Addysg Uwch ostyngiad bychan yn nifer digwyddiadau RIDDOR Staff yn 2014, i **1.05/1000** o'r gyfradd staff **1.18/1000** yn 2013. Cyfradd Prifysgol Bangor oedd **2.9/1000** yn 2014, o'i gymharu â **1.2/1000** yn 2013.

Syrthiodd y gyfradd genedlaethol ymysg myfyrwyr i **0.08/1000** yn 2014, o **0.10** yn 2013.

Yn hanesyddol, mae cyfraddau RIDDOR y brifysgol yn amrywio'n fawr fel y gwelir:

The National Student rate fell to **0.08/1000** in 2014, from **0.10** in 2013.


Historically the University's RIDDOR rates fluctuate greatly and are as:

| Blwyddyn | Staff | Myfyrwyr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |
| 2008 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2007 | 3 | 2 | 0 | **5** |
| 2006 | 3 | 6 | 0 | **9** |

- **ACHOS DAMWEINIAU (pob damwain)**


Roedd y rhan fwyaf o'r 78 damwain a arweiniodd at anaf i staff a myfyrwyr yn y cyfnod adrodd cyfredol yn ymwneud â naill ai digwyddiad trin a thrafod (27%), llithro, baglu neu syrthio (28%), neu gael eu taro gan wrthrych yn symud/syrthio (15%). Cafwyd 8 damwain a achosodd i staff golli amser o'u gwaith.

O'r 23 digwyddiad arall, roedd y mwyafrif yn ymwneud â dod i gysylltiad â rhywbeth sefydlog/di-symud.





- **AMSER A GOLLWYD OHERWYDD DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU I STAFF**

Fe wnaeth cyfanswm o **8** aelod staff golli amser o'u gwaith yn 2015/16 o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith. Roedd digwyddiadau a achosodd golli amser o'r gwaith yn cynnwys "Llithro, Baglu neu Syrthio", "Trin a Thrafod Pethau" ac un o ganlyniad i ddamwain ffordd.




Cyfradd colli amser yn y brifysgol o ganlyniad i ddamweiniau yw 3.45 i bob 1000 o staff.




***Nodyn:*** *Mae'r gwahaniaeth rhwng yr Adroddiadau dros 7 diwrnod RIDDOR (rhif 3) a'r pedwar digwyddiad y rhoddir gwybod amdanynt uchod yn ymwneud â'r ddamwain ffordd nad oedd angen rhoi gwybod amdani dan RIDDOR.*

### • DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU ERAILL

- Derbyniwyd **156** o adroddiadau pellach am ddigwyddiadau na achosodd anaf yn 2015/16. Roedd y rhain yn cynnwys **16** o adroddiadau yn ymwneud â salwch a oedd angen cymorth cyntaf neu alwadau am ambiwlans.
- Mae'r adroddiadau am ddigwyddiadau heblaw salwch wedi eu grwpio fel a ganlyn:


140 Adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anaf




Yn ogystal, derbyniwyd **84** o adroddiadau'n ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.

### • DIGWYDDIADAU TRAMOR A THEITHIO DRAMOR

Yn ystod 2015/16 cafwyd **1,424** o staff/myfyrwyr unigol yn teithio dramor wedi'u cofrestru ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. O'r rhain, rhoddwyd gwybod am **10** digwyddiad lle roedd aelod staff/myfyriwr wedi gorfod cael sylw meddygol dramor.




***Nodyn:*** *Gyda'r data sydd ar gael nid yw'n bosibl nodi unrhyw gysylltiad rhwng digwyddiadau meddygol (salwch) a chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i nodi unrhyw gyfraddau tueddiadau; gwneir hynny yn y dyfodol pan fydd mwy o ddata ar gael.*

### • DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU

Yn ystod 2015/16 cafwyd **4** damwain neu ddigwyddiad yn ymwneud â cherbydau prifysgol neu gerbydau wedi'u llogi yn cael eu gyrru gan staff (heb gynnwys Undeb y Myfyrwyr). Cafodd dau aelod staff anafiadau o ganlyniad i un digwyddiad.

Yn 2015/16 cafwyd **8** damwain neu ddigwyddiad, gyda dim adroddiadau am anafiadau personol.

Ar hyn o bryd ni all y brifysgol nodi cyfanswm y milltiredd a deithiwyd gan yr holl gerbydau sy'n eiddo i'r sefydliad neu a logir ganddo. Fodd bynnag, gan ddefnyddio data sydd ar gael gan y prif ddarparwr cerbydau llogi, rhoddir y cyfraddau digwyddiad canlynol fel dangosydd:

| **Cyfradd Digwyddiadau (Dig.) Cerbydau [7]** | | | |
|---|---|---|---|
| **2014 / 2015** | | **2015/ 2016** | |
| **Cyfanswm Dyddiau** | **Cyfanswm Milltiroedd** | **Cyfanswm Dyddiau** | **Cyfanswm Milltiroedd** |
| **2808** | **260,073** | **2871** | **207,029** |
| **Dig./Dyddiau** | **Dig./Milltir** | **Dig./Dyddiau** | **Dig./Milltir** |
| **1.4/1000 dyddiau** | **1.54 /100k milltiroedd** | **1.04/1000 dyddiau** | **1.4/100k milltiroedd** |
| **CYFANSWM ANAFIADAU** | | **CYFANSWM ANAFIADAU** | |
| **0** | | **2** (un digwyddiad) | |


## 7. ABSENOLDEB SALWCH STAFF

| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

[7] Gan ddefnyddio cyfanswm digwyddiadau, dyddiau llogi a milltiredd ar gyfer un darparwr cerbydau yn unig

**Gwelwyd cynnydd bychan mewn absenoldebau canolig a thymor hir yn 2015/16, tra gostyngodd absenoldebau tymor byr (dyddiau a gollwyd).**

Yn 2015/16 collwyd cyfanswm o 8,984 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch. Mae hyn yn gyfradd Absenoldeb Salwch Staff o tua **5.02** diwrnod i bob aelod staff FTE[8] (4.98 diwrnod yn 2014). Y cyfartaledd cenedlaethol yn y sector Addysg Uwch yn 2014/15 (data diweddaraf sydd ar gael) oedd **5.7** diwrnod[9].




***Nodyn****: Nid yw'r gyfradd genedlaethol am 15/16 ar gael eto.*

Mae cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2015/16 yn gyfwerth â **1.92%** o amser gwaith[10] yn cael ei golli oherwydd absenoldeb. Y gyfradd absenoldeb oedd **1.9% yn 2014**, **1.7% 2013** a **1.8% yn 2012**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prifysgol Bangor Amser a gollwyd i salwch** | **1.92%** | **Tueddiadau 5 mlynedd** | ↑ |

Yn 2015/16 cadarnhawyd 80% (7,153 o dyddiau gwaith, wedi'u haddasu ar gyfer FTE) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif feddygol (meddyg), gyda'r gweddill o 20% (1,831 o ddyddiau gwaith, wedi'u haddasu ar gyfer FTE) yn cael eu hunan-ardystio.

Yn 2015/16 roedd absenoldebau tymor hir, sef rhai hwy nag 20 diwrnod, yn 62% (5,561 o ddyddiau gwaith, wedi'u haddasu ar gyfer FTE) o'r holl ddyddiau absenoldeb yn 2015/16, sef cynnydd o 3.33% ar 2015.

Mae'r tabl canlynol yn rhannu'r cyfanswm o 8,894 o dyddiau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch i absenoldebau tymor byr, canolig a hir. Cyfanswm y staff a gymerodd unrhyw absenoldeb yn 2015/16 oedd **669.**

| **Hyd Absenoldebau (fesul categori)** | | | |
|---|---|---|---|
| | **BYR** 1-7 diwrnod | **CANOLIG** 8-20 diwrnod | **HIR** 21+ diwrnod |
| Dyddiau a Gollwyd | 1867 diwrnod | 1556 diwrnod | 5561 diwrnod |
| % o'r Cyfanswm | 20.78% | 17.32% | 61.90% |
| Achosion | 1045 | 186 | 110 |
| Nifer staff[11] | 553 | 157 | 98 |

## • TUEDDIADAU ABSENOLDEB SALWCH

| CATEGORI | 2014 | 15/16 | TUEDD | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer FTE | 1779.31 | 1790.22 | | → |
| Cyfanswm dyddiau gwaith a gollwyd | 8862.13 | 8984.31 | +122.18 | ↑ |
| Cyfanswm dyddiau tymor hir a gollwyd (20+) | 5545.14 | 5561.14 | +16 | → |
| Achosion tymor hir | 112 | 110 | -2 | → |
| Dyddiau tymor canolig/byr (<20) a gollwyd | 3316.98 | 3423.16 | +106.18 | ↑ |
| Tymor hir fel % o gyfanswm dyddiau | 62.57% | 61.90% | -0.67% | → |
| TC/TB fel % o gyfanswm dyddiau | 37.43% | 38.10% | +0.67% | → |
| Dyddiau tymor hir yr FTE | 3.12 | 3.11 | -0.01 | → |
| Dyddiau TC/TB yr FTE | 1.86 | 1.91 | +0.05 | → |

## • CYFNODAU ABSENOLDEB TYMOR HIR

Gan y gall cyfnod o absenoldeb ddechrau unrhyw bryd yn y flwyddyn galendr, mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm holl achosion salwch tymor hir a

[8] Seiliedig ar FTE o 1790.22
[9] Cyfartaledd a roddwyd yn UCEA Sickness Absence in Higher Education Report 2014/15; seiliedig ar 95 sefydliad AU
[10] Seiliedig ar gyfarteledd o 260.715 diwrnod gwaith y flwyddyn

[11] Mae rhai aelodau staff yn ymddangos mewn mwy nag un o'r categoriau hyn, gan fod rhai wedi cael cyfnodau byr a chanolig, neu fyr a hir o'r gwaith ar adegau gwahanol


ddaeth i ben yn 2015/16, o'i gymharu â 2014. Gwelir bod tua 50% o holl achosion tymor hir wedi dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.

| Absenoldebau o dros 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2015/16 ac yn 2014 | | |
|---|---|---|
| Cyfnod absenoldeb mewn misoedd | Nifer achosion 2015/16 | Nifer achosion 2014 |
| ≤2 | 47 | 51 |
| ≤3 | 19 | 23 |
| ≤4 | 12 | 4 |
| ≤5 | 6 | 5 |
| ≤6 | 3 | 4 |
| ≤7 | 0 | 5 |
| ≤8 | 0 | 3 |
| ≤9 | 2 | 0 |
| ≤10 | 0 | 0 |
| ≤11 | 1 | 1 |
| ≤12 | 0 | 0 |


- **ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH**

Gan ddefnyddio data wedi ei ardystio'n feddygol yn unig, nodir unwaith eto mai anhwylderau seicolegol a phroblemau cyhyrysgerbydol (yn cynnwys cefnau, cymalau a thorri esgyrn) sy'n gyfrifol am y canran mwyaf o absenoldebau yn y brifysgol.


Mae'r dosbarthiad o ddyddiau wedi eu colli ar gyfer y prif gategorïau fel a ganlyn:




Nid oes unrhyw Gymaryddion Cenedlaethol i'r grwpiau achosiaeth uchod gan eu bod yn cyfeirio at absenoldebau a Ardystiwyd gan Feddyg/yn Feddygol yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion hunan-ardystio.




Caiff achosion absenoldeb tymor hir eu crynhoi fel:




## 8. ARCHWILIAD A GWIRIADAU IECHYD

Mae 130 aelod staff yn cael Archwiliad Iechyd i gadarnhau nad yw eu gwaith yn achosi niwed i'w hiechyd.

Darperir archwiliadau i nifer o weithwyr llaw sy'n defnyddio offer dirgrynu ac sy'n gweithio mewn mannau swnllyd, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a thechnegwyr, gweithwyr shifft, gyrwyr ar gontract a rhai'n trin a thrafod anifeiliaid.

Caiff pob archwiliad iechyd ei lunio'n bwrpasol ar gyfer y risgiau a'r peryglon hysbys y mae staff yn eu hwynebu ac fel rheol maent yn cynnwys archwiliadau'n ymwneud ag anadlu, sŵn neu ddirgrynu, ac/neu profion ar y croen a'r golwg.

Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd.


## 9. GWEITHREDU LARWM TÂN

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Mae gan y brifysgol dros gant o adeiladau a gaiff eu gwarchod gyda systemau awtomatig canfod tân, gyda 7910 o synwyryddion mwg/gwres a channoedd o larymau tân maniwal.

Yn ystod 2015/2016 cafwyd 127 o achosion o weithredu larymau tân yn adeiladau'r brifysgol.

Cyfanswm Achosion Gweithredu Larymau Tân ym Mhrifysgol Bangor





Bu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n bresennol ar **23** achlysur o ganlyniad i larwm tân, gostyngiad sylweddol ar yr **116** achlysur yn 2014. *Nodir bod staff hyfforddedig o'r brifysgol yn awr yn ymchwilio i'r rhan fwyaf o achosion o weithredu larwm tân, ac eithrio Neuaddau Preswyl (yn y nos).*

Roedd 21 o'r achosion pryd y daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan yn rai i Neuaddau Preswyl rhwng 20:00 a 08:00.

Caiff cyfanswm yr achosion gweithredu larwm tân (127) eu rhannu ymhellach i nodi cyfraddau ar gyfer adeiladau preswyl ac adeiladau academaidd a gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y brifysgol.

Achosion o Weithredu Larwm Tân fesul ystâd





Fe wnaeth nifer achosion gweithredu larwm tân mewn adeiladau academaidd a gweinyddol ostwng ychydig o 46 (2014/15) i **44** yn 2015/16. Cynyddodd gweithredu larwm tân mewn neuaddau preswyl ychydig o 77 i **83.**

Cyfradd Gweithredu Larwm Tân / 1000 synhwyrydd

| Ystadau | 15/16 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[12] | 34.9/1000 | Dim newid o bwys |
| Acad. a Gwein[13] | 8.9/1000 | I lawr |

Achosion o Weithredu Larwm Tân fesul 1000 o Ystafelloedd Cysgu/Astudio




| 08 | 09 | 10 | 10/ 11 | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 75 | 46 | 38 | 35 | 32.1 | 30.4 | 34.7 | 33.4 | 25.1 |

***Nodyn:*** *Nid yw cymariaethau cenedlaethol/sector wedi bod ar gael er 2012. Mae'r Universities Safety*

[12] Gosodwyd bron i 700 o synwyryddion ychwanegol yn 15/16 yn natblygiad y Santes Fair

[13] Yn cynnwys dros 700 o synwyryddion newydd yn Pontio

*and Health Association (USHA) wedi nodi'n ddiweddar y bydd yn awr yn casglu ynghyd ddata sefydliadol a chynhyrchu adroddiad meincnod o 15/16.*

- **TANAU**

Cafwyd un tân yn 2015/16. Achoswyd hwn gan fwyd yn coginio a neb yn cadw golwg arno ac achoswyd difrod mwg difrifol i gegin mewn neuadd breswyl.

Cafwyd hefyd nifer o achosion a allai fod wedi achosi tân, sef digwyddiadau lle ceir 'dim ond mwg, heb fflamau, a all achosi difrod neu ddim'. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â choginio mewn neuaddau preswyl.

Y digwyddiad mwyaf yn y categori yma oedd un yn yr Ysgol Cemeg a achosodd ymateb i ddigwyddiad mawr gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni chafwyd unrhyw anafiadau ond achoswyd niwed difrifol i offer gwyddonol. Gan na chafwyd tân (fflamau) gwirioneddol nid yw wedi ei gofnodi fel tân.

## 10. HAWLIADAU SIFIL (YN YMWNEUD AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2015/16 cafwyd un Hawliad Sifil newydd am anaf personol. Mae hwn yn ymwneud ag aelod staff a digwyddiad llithro/syrthio.

## 11. POLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL

Mae'r brifysgol wedi mabwysiadu Polisi Iechyd a Diogelwch newydd sy'n cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol newydd (USHA[14]) "Leadership and Management of Health and Safety in Higher Education Institutions".

Mae'r polisi'n rhoi cyngor clir ar swyddogaethau a chyfrifoldebau, gan integreiddio'r fethodoleg 'Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu' ag arferion rheoli iechyd a diogelwch.

## 12. YSTADEGAU GWEFAN

Yn 2015/16, fe wnaeth 7,255 o ddefnyddwyr (-3% o'i gymharu â ffigurau 2014) ymweld â gwefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch. O'r rhain, roedd 47.46% yn ddefnyddwyr a oedd yn dychwelyd. Drwodd a thro, edrychwyd ar gyfanswm o 33,624 (+4%) o dudalennau yn ystod sesiynau.

## 13. DIGWYDDIADAU HYBU IECHYD

Trwy ddigwyddiadau a chynlluniau penodol mae'r brifysgol yn ceisio hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles staff a myfyrwyr. Ceir digwyddiadau ac ymgyrchoedd niferus gydol y flwyddyn. Yn 2015/16 roedd y rhain yn cynnwys:

- *Gwaed mewn Dŵr*: Ymgyrch bosteri ar ddrysau toiledau ar draws y brifysgol i dynnu sylw at symptomau rhai heintiau, cerrig yn y bledren neu'r arennau neu ganser yn y bledren neu'r arennau.
- *Cyfeillgar i deuluoedd:* Ymwneud â nifer o gynlluniau cyfeillgar i deuluoedd, yn cynnwys sefydlu rhwydwaith rhieni i helpu rhieni presennol sy'n gweithio a darpar rieni a fydd yn gweithio yn y dyfodol.
- *Banc Bwyd:* Sefydlu, gydag Undeb y Myfyrwyr, rwydwaith o 20 o finiau casglu banc bwyd ar draws y safle, i annog staff a myfyrwyr i roi bwyd a deunyddiau ymolchi i rai sydd mewn angen ym Mangor.
- *Gweithgaredd Corfforol*: Cafodd nifer o gyfleoedd eu hyrwyddo i staff gyda theithiau beic lleol, dyddiau golff a chynllun benthyca beiciau. Yn ogystal, cafwyd nifer o dalebau am ddim i'r Ysgol Gwyddorau Eigion i fynd i ganolfan hamdden. Hefyd cerddodd grŵp o staff ac ôl-raddedigion i ben Yr Wyddfa yng Ngorffennaf i godi arian at Dŷ Gobaith.



[14] USHA – Universities Safety and Health Association

## 14. CEFNOGI'R GYMUNED EHANGACH

Ers nifer o flynyddoedd mae'r brifysgol wedi bod yn cefnogi elusen Tŷ Gobaith / Hope House sy'n darparu gofal lliniarol a nyrsio terfynol i blant sy'n dioddef o gyflyrau nad oes gwella iddynt.

Unwaith eto mae staff a myfyrwyr wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau codi arian dros y flwyddyn ddiwethaf, yn amrywio o roddion misol drwy loteri staff i *Euro sweepstake*. Ar hyn o bryd mae 24% o staff yn cyfrannu'n rheolaidd i'r loteri staff sy'n costio £1 y mis.

Codwyd dros £3,200 yn 2015/16 drwy'r loteri staff.

**Diwedd.**